

Bwletin Awdurdod S4C

Cyfarfod 303 - 20 Medi 2007

Gwesty TyGlyn, Ciliau Aeron

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2007.

1. Croeso

Croesawodd y Cadeirydd dau aelod newydd yr Awdurdod i'w cyfarfod cyntaf, sef Bill Davies a Cenwyn Edwards, ac Ysgrifennydd newydd yr Awdurdod, Phil Williams.

2. Ymgynghoriad ar y gwasanaeth arfaethedig ar gyfer plant a phobl ifanc

Nododd IJ ei bod wedi anfon dogfen drafft at DCMS bythefnos yn ôl er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn a bod y ddogfen yn addas i'r pwrpas o greu gwasanaeth newydd i blant a phobl ifanc. Nododd er gwybodaeth taw hwn oedd y tro cyntaf i DCMS ddelio â'r math yma o ymgynghoriad.

3. Adroddiad y Cadeirydd

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dderbyniad S4C yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Yr Wyddgrug a nododd bod Rhodri Glyn Thomas, y Gweinidog dros Dreftadaeth, yn bresennol.

Mynychodd BD a JWJ gynhadledd Plaid Cymru yn Llandudno a mynychodd JWJ a CLI gynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol yn Brighton. Roedd yn bwriadu mynychu cynhadledd y Blaid Lafur yn Bournemouth a chynhadledd y Blaid Geidwadol yn Blackpool.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad. Nododd y bydd yn cyfarfod gydag Ofcom i drafod eu adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Dywedodd bod y newidiadau i'r dderbynfya a'r ardaloedd cysylltiedig yn adeilad S4C yn Llanisien wedi creu gofod gwir ddefnyddiol.

Amlinellodd y drafodaeth sydd wedi ei chynnal ymhlith swyddogion ynglŷn ag archifau papur S4C a phenderfynwyd symud ymlaen â'r drafodaeth gyda'r Llyfrgell Genedlaethol.

5. Adroddiad ar y broses tendro ar gyfer archwilwyr allanol

Nodwyd bod cwmni Grant Thornton wedi'u hailbenodi yn archwilwyr allanol.

6. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Cofnodion y Pwyllgor Cynnwys
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Rhaglen Waith yr Awdurdod 2007
- Tabl Digwyddiadau am 2007